Cystadleuaeth 81.

Portread o berson

Buddugol: Colbwr sef John Meurig Edwards, Ystrad Fflur, Aberhonddu

Yn ail a thrydydd: Heb ffrind a Mai sef Gaenor Mai Jones, Coed y Brenin, Pentre'r Eglwys, Pontypridd



Rhif: 81 **Portread o Berson** **COLBWR**

Eddie

Pan oeddwn yn tyfu lan ym Mhontrhydygroes yn y pumdegau, roeddwn yn gwybod pwy oedd Eddie ond doeddwn i ddim yn ei adnabod yn go iawn. Roedd e'n ŵr ifanc golygus, gyda sbectol drwchus, a'i wallt tywyll wedi ei gribo am yn ôl. Gwyddwn ei fod yn byw gyda'i fam, Meri Ann Morgan, ar dyddyn bychan o'r enw Capel Helaeth ger Ysbyty Ystwyth, a'i fod â'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth. Y tro cyntaf i mi gynnal pwt o sgwrs ag ef oedd pan ddaeth unwaith i bregethu atom yng nghapel Bethel, a'r tro arall oedd pan oedd yn y cwt bychan tu allan i ddrws capel Maesglas, Ysbyty Ystwyth, yn gwerthu tocynnau ar ddiwrnod yr eisteddfod leol.

Yna un diwrnod niwlog pan oeddwn yn fy arddegau ac yn pysgota gyda chyfaill ar rostir unig Rhos Marchnant, ymddangosodd Eddie fel rhith allan o'r niwl, yn drymlwythog o offer pysgota. Daeth atom, gan felltithio'r niwl a'i rhwystrodd rhag cyrraedd rhyw 'bwll' yr oedd yn anelu amdano. "Pa bwll?", gofynnais, oherwydd ni wyddwn am unrhyw bwll yn yr ardal. "O, y pwll bach tu draw i'r Drawsallt", oedd yr ateb. A dyna ddechrau sylweddoli fod gan y boi hwn ryw ffordd arbennig o siarad, gyda'i eirfa unigryw ei hun, oherwydd y 'pwll' oedd Llyn Fyrddon Fawr, sy'n glamp o lyn yn unigeddau Elenydd. Dechreuodd gyfeirio at ei enwair fel 'peg', a physgota fel 'colbo', neu 'boddi mwydod'. 'Powtsh' oedd y bag a gariai ar ei gefn, a phan gynigiodd losin i ni, cyfeiriodd atynt fel 'iben jam'. Yna dyma bennill yn dod –

'Rwy'n sefyll 'ma ers meityn
Yn ceisio dal pysgotyn,
Ond nid yw'r boi â'r gynffon fflat
Yn neidio at y mwytyn.'

Roeddwn i wedi cael ar ddeall nad oedd pysgod yn Llyn Fyrddon Fawr o gwbl, felly dyma'i holi, a chael gwybod fod pysgod braf yno, ond nad oedd y nifer yn fawr iawn. A dyma gynnig mynd â ni i fyny gyda fe i'r Pwll, cynnig a dderbyniwyd yn eiddgar, gan ein bod yn bysgotwyr brwd bryd hynny. Digwyddodd y daith gyntaf honno'n fuan wedyn, ac ar ôl gweld Eddie'n glanio pysgodyn mwy o faint nag unrhyw beth a ddalion ni erioed, roeddwn i a'm cyfaill wedi'n bachu, a daeth teithiau hir i'r Pwll yn ymweliadau rheolaidd o hynny ymlaen.

Er nad oeddem yn dal rhyw lawer, tyfodd cyfeillgarwch agos rhyngom ni ac Eddie a daethom i'w adnabod yn bur dda. Roedd yn ei elfen pan oedd genwair yn ei law a sigarét yn ei geg. Bryd hynny byddai'n byrlymu o hiwmor, a dywedai bob math o ffwlbri wrthym. Roedd yn dal pysgod, meddai, oherwydd ei fod yn piclo'r

mwydod. Deuthum i ddeall wedyn mai hen ddrwm oel, yn llawn pridd a dail, oedd y 'picl'. Cyfeiriodd ataf droeon fel 'mochyn siwgwr', a phan ofynnais am eglurhad yr hyn a gefais oedd "Wel, rwyt ti'n gwenu drwy'r amser pan wyt ti'n pysgota, a ma' mochyn siwgwr â gwên ar 'i wyneb bob amser". Roedd bwyta'r tocyn amser cinio yn rhan bleserus o'r dydd i ni, ond i Eddie roedd y pysgota yn llawer pwysicach na'r bwyta, a rhyw arlwy digon rhyfedd fyddai ei ymborth ar adegau. Fe'i cofiaf yn bwyta tuniaid cyfan o *Condensed Milk* un tro, a dim byd arall. "Dim ond hwn allwn i ffeindio yn y pantri", oedd ei esgus.

Tyfodd ein cyfeillgarwch drwy flynyddoedd fy arddegau a chyfnodau gwyliau coleg, a daeth direidi Eddie'n fwyfwy amlwg. Cofiaf amdano'n sôn am yr adeg pan anfonwyd ef a bachgen arall i chwynnu'r pŷs yng ngardd yr ysgol. Tynnwyd un o'r pŷs i fyny, a gan fod cystal blas arni, bwytawyd y rhes gyfan, a chafodd y garddwyr flas y gansen i ychwanegi at flas y pŷs.

Byddwn yn treulio oriau lawer yn chwarae cardiau yng Nghapel Helaeth yng nghwmni Eddie a'i fam, ac roedd hi wrth ei bodd yn ein cwmni ac yn ymuno yn yr hwyl. Gan ei fod bellach yn gweithio fel athro yng Nghaerdydd, byddai'n dod â phob math o sigarennau o bob lliw adref, a'n perswadio i roi cynnig arnynt. Roedd ganddo rai duon o'r enw 'Sobranie', ac rwy'n siwr mai ymgodymu ag un o'r rheini a theimlo'n sâl iawn a wnaeth i mi benderfynu na fyddwn byth eto'n ysmygu, ac rwy'n falch i mi lwyddo i gadw at y penderfyniad hwnnw. Byddai Meri Ann yn mynnu paratoi tipyn o swper i ni, ond os byddwn i a'm cyfaill yn llowcio braidd yn farus, byddai Eddie'n ein gwneud i deimlo'n euog drwy ddweud, "Paid bwyta gormod. Ma' Meri Ann ar 'i phensiwn, cofia!"

Roedd Eddie wedi bod lawr yn nhafarn y Meinars ym Mhontrhydygroes un tro, ac wedi gwahodd dyn a oedd yn gweithio yn yr ardal dros dro i ymuno yn un o'r seiadau hwyrol yng Nghapel Helaeth. Os cofiaf yn iawn, gweithio ar adeiladu cronfa ddŵr Nant y Moch oedd y gŵr, ac roedd e o dras Rwsiaidd neu Wcranaidd. Yn ystod y sgwrs dywedodd Eddie, "*The Sa'r was drunk again last night*", gan gyfeirio at Jac y Sa'r, sef y saer coed lleol a oedd yn byw gerllaw ar dyddyn Pantglas, ac a oedd yn hoff o'i beint. Edrychodd yr ymwelydd arno mewn syndod, a gofyn, "*You have a Tsar here?*"

Pan fyddai'n dod adref o Gaerdydd, yn ogystal â'r sigarennau byddai'n dod â phob math o offer pysgota arbrofol gyda fe i'w defnyddio ar y Pwll. Yna penderfynodd ei fod yn mynd i ddechrau pysgota â phlu yn hytrach na 'boddi mwydod'. Byddai wrthi'n ddyfal yn chwipio'r dŵr, ond welais i mohono fe erioed yn dal pysgodyn â phluen yno. Y gwir yw nad oedd llawer o bysgod yn y llyn, a go brin fod unrhyw bysgod yno bellach. Ar ôl dychwelyd i'r coleg wedi gwyliau'r haf un flwyddyn, anfonais gyfres o dribannau ato i Gaerdydd yn tynnu ei goes a'i wawdio am ei fethiant fel pysgotwr plu. Yn fuan daeth cyfres yn ôl, wedi eu hysgrifennu ar dair neu bedair o gardiau post. Os oedd y postman yng

Nghaerfyrddin yn deall Cymraeg ac yn darllen y cardiau, dyn a ŵyr beth oedd e'n feddwl o'r cynnwys! Fe ddes ar draws un o'r cardie hyn yn ddiweddar tu mewn i lyfr, ac er nad oedd nifer o'r tribannau'n rhai y gellid eu dyfynnu yma, dyma un o'r rhai parchus –

'Peth sâl yw boddi pryfed mud,
Mae'n ddrud i brynu bachyn;
Pwrcasa blu yn siop y Cob,
Gall pob lob foddi mwydyn.'

Y 'Cob' oedd Dai'r Cobler o Bontrhydfendigaid, a oedd yn gwerthu offer a geriach pysgota yn ei weithdy crydd.

Daeth beili dŵr ar fy ngwarthaf unwaith, a minnau'n pysgota heb drwydded. Am ryw reswm meddyliais y gallwn achub fy nghroen drwy roi enw fy nhad iddo yn hytrach na'm henw i. Cyfeiriai Eddie at fy nhad fel 'Aco' – duw a ŵyr pam!, ac roedd achlysur fel hwn yn haeddu triban, wrth gwrs, a dyma fe –

'Pwrcasa drwydded yn siop Dic,
Tric gwael yw ffein am golbo,
Ac os daw beiliff cas â'i gi
Paid dweud mai ti yw Aco.'

Cyrhaeddodd gartref o Gaerdydd un tro mewn *bubble car* Messerschmitt o liw melyn golau. Car bach isel ar y ffordd gydag olwynion bychain a tho o blastig tryloyw oedd hwn, a bedyddiwyd ef gan Eddie fel 'Y Bwystfil'. Byddai'n gyrru hwn yn wallgo o gwmpas y lle, a gallech ei glywed yn dod o hirbell, a byddai'n teithio yn ôl ac ymlaen yn gyson ynddo i Gaerdydd. Hynny yw nes i'r Bwystfil droi drosodd un noson ar y Bannau, a chael cryn ddifrod. Pan ofynnwyd am hynt a helynt y car cawsom ar ddeall fod y Bwystfil 'yn sâl', a gan fod hwnnw'n salwch angheuol, nis gwelwyd mwyach.

Roedd Eddie yn rhannu ystafell yng Nghaerdydd gyda Shinc, y cyfaill a oedd yn un o'r criw pysgota, a phan dderbyniais innau swydd i ddysgu yn y brifddinas, cefais wybod fod lle i un arall yn y tŷ lojin yn Heathfield Place. Rhannu ystafell fechan gyda gweithiwr dur yng ngwaith East Moors, a lysenwyd gan Eddie yn 'Trog'. Pan benderfynodd y Trog fod yn rhaid iddo briodi'r ferch drws nesaf ar ôl ei chael i drwbwl, tynnwyd coes y truan yn ddiddiwedd gan Eddie. Ond cawsom ein tri ein gwahodd i'r briodas a chael diwrnod i'w gofio – neu i'w anghofio!

Chwaraewyd llawer o gastiau arnaf innau pan symudais i fyw i'r tŷ. Cyhoeddodd Eddie un diwrnod ei fod yn mynd i lawr i siop *fish*, a gan fy mod braidd yn llwglyd gofynnais am becyn o sglodion. "Iawn", oedd yr ateb, ond pan ddychwelodd doedd dim sôn am sglodion. Roedd yn ei ddyblau'n chwerthin wrth iddo egluro i mi mai bwcis enwog yng Nghaerdydd ar y pryd oedd Fish, a'i fod yn ymwelydd cyson â'r siop arbennig hon i roi 'ambell bunt ar y ji-jis'.

Rhybuddiwyd fi gan Eddie ar ôl i mi symud i mewn atynt fod gŵr y llety'n berson siaradus iawn, ac nad oedd taw arno unwaith y dechreuai glebran. Am y rheswm hwnnw bedyddiwyd ef ganddynt yn 'Sŵn'. Siarswyd fi hefyd y byddwn yn pechu os na fyddwn yn cynnig y mwstard, y pupur a'r halen i'r Sŵn cyn dechrau ar fy nghinio fy hun. Gyda chryn bryder felly yr eisteddais wrth y bwrdd ar y noson gyntaf honno, gydag Eddie a Shinc un bob ochr i mi. Ar hyn dyma'r Sŵn yn cyrraedd. Dyn byr, tew, penfoel oedd e , yn cael ei ddilyn gan sbaniel. Eisteddodd y Sŵn gyferbyn â mi a diflannodd y ci i rywle o dan y bwrdd. Er i mi ei gyfarch a cheisio tynnu sgwrs ag ef, gwrthodai'r Sŵn ddweud yr un gair, a gallwn glywed fy nau gyfaill yn pwffian chwerthin. "Ma' fe'n swnllyd iawn heno 'to", meddai Eddie yn Gymraeg, fel na allai'r moelyn mud gyferbyn â mi ddeall. A chefais innau bwl o chwerthin. Pan gynigiais y mwstard a'r pupur i'r Sŵn ffrwydrodd fy nau gyfaill, gan y gwyddent beth fyddai'n dod nesaf. "*No, dog doesn't like it*", oedd yr ateb. Ar ddiwedd y pryd deallais ei bod yn arferiad gan y Sŵn i adael y darn gorau o'r cig ar ei blat, yna ei dorri'n ddarnau mân a'i roi'n ymborth i'r sbaniel o dan y bwrdd. Roedd y ddau gyfaill yn gyfarwydd iawn â'r ddefod hon a chawsant hwyl fawr ar fy mhen. Gyda llaw, yn y llety hwn yr oeddwn gydag Eddie a Shinc pan glywsom am lofruddiaeth John F. Kennedy. Dyma'r unig dro hyd y cofiaf i'r Sŵn ddod i siarad â ni o'i wirfodd. Cnociwyd ar ddrws ein hystafell a daeth pen moel i'r golwg. Yna tri gair yn unig – *"Kennedy's been shot"*, cyn i'r drws gael ei gau drachefn. Hanner awr yn ddiweddarach daeth cnoc arall ac ymddangosodd y pen eilwaith. Dau air a gafwyd y tro hwn – "*E's dead.*"

Roedd Eddie'n fardd galluog iawn ac yn ogystal â'r tribannau gwirion, gallai ysgrifennu pethau gwirioneddol dda pan fynnai, a byddai'n anfon ambell beth i'r Eisteddfod Genedlaethol. Ac wrth iddo baratoi cyfres o dribannau ar gyfer Eisteddfod Abertawe, 1964, y penderfynodd Shinc yr hoffai e hefyd gystadlu ar rywbeth. Roedd e'n awyddus i roi cynnig am y Gadair, ond pan ofynnwyd iddo pa mor gyfarwydd oedd e â'r gynghanedd, a chael yr ateb "Beth yw hwnnw?", bu'n rhaid ei ddarbwyllo nad oedd e'n barod cweit ar gyfer cystadleuaeth y Gadair. Penderfynwyd felly mai'r gystadleuaeth tribannau fyddai orau iddo yntau, er nad oedd gan Shinc fawr o syniad beth oedd triban chwaith. Felly dyma'r tri ohonom, dan arweiniad Eddie, yn mynd ati i gyfansoddi deuddeg triban hollol wirion a disynnwyr a'u hanfon i'r gystadleuaeth dan y ffugenw 'Mistir Jincins, Barbwr Llanpigyn'. Edrychai Shinc ymlaen yn fawr at gael copi o'r Cyfansoddiadau ac at gael darllen beirniadaeth D. Myrddin Lloyd. A dyma'r feirniadaeth – 'Un yn unig, sef 'Mistir Jincins', sydd heb gadw'n gyson at y mesur, a rhoddwn ef ar y gwaelod oblegid hynny yn ogystal ag am lwyr gyffredinedd ei waith.' Roedd Eddie wrth ei fodd!

Ar ôl rhyw flwyddyn yn y llety, daeth awydd arnaf i symud allan i fflat gydag *un o'm* ffrindiau. Ymhen sbel daeth Shinc at griw ohonom i rannu tŷ yn Conway *Road* – tŷ a oedd yn llawer rhy agos i dafarn enwog y 'Conway'. Collais adnabyddiaeth ag Eddie i raddau helaeth, er y byddwn yn ei weld yn achlysurol. Priododd yntau a symud yn ôl i Geredigion, gan ddod yn brifathro parchus ysgol Y Ferwig, ger Aberteifi, lle gallai barhau â'i ddileit mewn pysgota, gan fod yr afon Teifi gerllaw.

Y tro olaf i mi ei weld a chael sgwrs ag ef oedd mewn aduniad cyn-ddisgyblion Ysbyty Ystwyth rai blynyddoedd yn ôl. Roedd yr un bwrlwm a hiwmor yn dal yno, er bod 'yr hen begs braidd yn stiff, a go brin y gallwn i gerdded i'r Pwll nawr.' Tristwch mawr oedd clywed y newyddion am ei farwolaeth yn 2016, ond gadawodd fi gyda stôr o atgofion melys iawn am gyfnod pan oedd digon o hwyl diniwed i'w gael yng nghefn gwlad Ceredigion.